



## YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH  
CYFROL 2 RHIF 67  
MEHEFIN 2014

Rwy'n siwr y cawsoch chi, fel minnau, eich tristáu a'ch syfrdanu yn fawr iawn o glywed am hanes y ddwy wraig a ymddangosodd yn y newyddion yn ddiweddar, y naill o Sudan a'r llall o Bacistan.

Mae Meriam Ibrahim o'r Sudan newydd eni merch fach ond nid ar ward mamolaeth mewn ysbyty, na chwaith yng nghysur ei chartref ar yr aelwyd, ond mewn carchar. Fe'i carcharwyd am iddi ymwrthod â gwadu ei ffydd Gristnogol. Magwyd Meriam gan ei mam fel Cristion unionged, ond o fewn y gymdeithas lle mae'n byw, fe'i hystyrir yn Foslem gan mai dyna oedd crefydd ei thad. Wrth iddi lynu at ei ffydd Gristnogol, fe'i dedfrydwyd i farwolaeth drwy grogi ond gohiriwyd y ddedfryd tra'i bod hi'n magu ei merch fach. Mae ganddi fab bach dwy flwydd oed hefyd ac mae yntau gyda'i fam yn y carchar. Erbyn hyn, mae hanes Meriam wedi ymledu ar draws y byd ac mae yna bwysau rhyngwladol wedi cael ei ddwyn ar y llywodraeth yn Khartoum i wyrdroi'r ddedfryd ac i ddarparu gofal priodol i Meriam a'r ddau blentyn.

Ym Mhacistan, bu farw Farzana Parvenn, 25 mlwydd oed, wedi iddi gael ei llabyddio yng ngolau dydd nid nepell o'r Uchel Lys yn ninas Lahore, Pacistan. Mae'n debyg iddi gael ei lladd gan aelodau o'i theulu ei hun am iddi briodi yn erbyn ewyllys ei rhieni. Roedd Farzana yn disgwyl plentyn ac yn ôl ei gŵr ni wnaeth neb geisio ei chynorthwyo rhag yr ymosodiad. Disgrifiwyd llofruddiaeth Farzana fel achos o lofruddiaeth er mwyn adfer anrhydedd y teulu (*honour killing*) am iddi ddwyn anfri arnynt drwy briodi'r dyn yr oedd hi yn ei garu yn hytrach na gŵr o ddewis y teulu.

Mae'r ddau achos uchod nid yn unig yn adlewyrchiad hynod drist o'r diffyg parch sydd yn bodoli tuag at ddiogelu rhyddid crefyddol ond maent yn dadlennu llawer am y modd y mae hawliau merched yn cael eu diystyru'n gyfangwbl mewn rhai gwledydd.

Ar ddydd Sul 8fed Mehefin byddwn yn dathlu pen-blwydd yr eglwys ac yn cofio am dywalltiad o'r Ysbryd Glân yn syrthio ar griw bach nerfus o ddisgyblion yn Jerwsalem gan eu trawsffurfio i fod yn bobl newydd ac yn offerynnau Duw i ddwyn y newyddion da i'r holl genhedloedd. Erfyniwn ninnau am dywalltiad o'i lân Ysbryd nid yn unig arnom ni ein hunain yma yng Nghymru ond ar draws y byd, ac yn enwedig ar arweiniwyr gwledydd Sudan a Phacistan, gan weddio y bydd cariad Duw yn cyffwrdd â chalonnau pob un sydd wrthi yn sathru ac yn diystyru hawliau sylfaenol brawd neu chwaer. Boed i'r Ysbryd oleuo ein meddyliau ac arwain ni oll i fyw yn unol â'i ewyllys dwyfol Ef.

*Tywys Seion i'r gwirionedd,  
at oludoedd meddwl Duw;  
dyro'r manna, gad in yfed  
o ffynhonnau'r dyfroedd byw;  
dawn yr Ysbryd  
bywyd a thangnefedd yw.*

Glanystwyth, 1842-1902

Pob bendith

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW 01970 820939 berwynfa@btinternet.com

## Calendr Mis Mehefin 2014

Cyhoeddwr y Mis: Mervyn Hughes	Organydd y Mis : Mair Evans	
1 Mehefin 10.30yb 2.30yp	Ysgol Sul o dan arweiniad Ceri  Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Doreen ac Ella
8 Mehefin 10.30yb	Edrychwn ymlaen at groesawu Sarah Mhamdi atom.	
15 Mehefin 10.30yb 2.30yp	Ysgol Sul o dan arweiniad Zoe  Oedfa Bregeth: Mair Penri	Gofal y Te: l'w drefnu
22 Mehefin	Taith i Ddolwar Fach ac Oedfa yn Nolanog	
29 Mehefin 10.30yp	Oedfa Bregeth : Gweinidog	
6 Gorffennaf 10.30yb 2.30yp	Ysgol Sul o dan arweiniad Ceri Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: l'w drefnu.

### I'ch Dyddiadur

- 2 Mehefin: Cyfarfod *Agor y Llyfr* yn festri Horeb am 11.00yb  
 2 Mehefin: Cinio Bara Caws: Eglwys y Drindod Sanctaidd: 12.00yp-1.30yp  
 2 Mehefin: Pwyllgor y Tair Gofalaeth yn Festri'r Garn am 7yh  
 4 Mehefin: Cyfarfod Diaconiaid Horeb am ???  
 11 Mehefin: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp  
 21 Mehefin: Taith Owain Glyndŵr, Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni'r Athro Gruffydd Aled Williams  
 24 Mehefin: Cylch Darllen y Beibl am 2.00yp  
 25 Mehefin: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp  
 27 Mehefin: Encil yn Ffaldybrenin. Enwau i Judith cyn gynted ag y bo modd.  
 3 Gorffennaf: Oedfa Dathlu Pen-Blwydd saith deg mlwyddiant Mudiad y Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru ym Methel am 2.00yp. Croeso cynnes i bawb.  
 25 Gorffennaf: Barbeciw Horeb. Manylion i ddilyn.  
 1 Hydref: Oedfa Ddiolchgarwch Horeb yng nghwmni Sian Howys am 7yh.

### LLOFFION

**Dymuniadau gorau** i Mona sydd yn cael triniaeth ar hyn o bryd.

**Croeso adref** i Connie ar ôl treulio cyfnod yng nghartref Bodlondeb.

**Dymuniadau gorau** hefyd i Wadad, (Mrs Irfon Williams) sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Treforys.

**Diolch:** Diolch yn fawr iawn i Cerys H am ei chyflwyniad arbennig yn yr oedfa ar y Sul olaf ym mis Mai am ei thaith i Awstralia i ymchwilio i ymyraethau byr alcohol a thybaco a dymuniadau gorau iddi wrth gyflwyno'r ymchwil fel rhan o'i gwaith.

**Taith i Ddolwar Fach: 22 Mehefin:** Byddwn yn cynnal oedfa yng Nghapel Coffa Ann Griffiths yn Nolanog. Pe hoffech gyflwyno un o emynau Ann Griffiths yn ystod yr oedfa, cysylltwch â Judith. Bydd y bws yn cychwyn o Neuadd Penrhyn-coch am 12.00yp ac yn cyrraedd Store 21 tua 12.20yp.

**Prosiect y Tair Gofalaeth:** Os oes gan rywun lythyrau, dogfennau, lluniau ayyb yn eu heiddo o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf cysylltwch â Ceris neu Judith

**Enwau ar y rhestrau:** Byddai'r swyddogion yn ddiolchgar pe gallech wirfoddoli trwy dorri eich enwau ar y rhestrau yn y cyntedd.

**Clwb Hanner Tymor:** Diolch yn fawr iawn i Ceri, Wendy, Eirian, Zoe, Sioned a William am gynnal y Clwb unwaith yn rhagor. Cawsom hwyl arbennig yng nghwmni'r plant a'r anifeiliaid o Arch Noa!